



Show Home interior at Harrington Mews

## DISCOVER YOUR DREAM HOME

Crest Nicholson's unrivalled attention to detail and sense of style makes these homes an ideal choice for the discerning buyer. The beautifully designed kitchens and sleek, stylish bathrooms create luxury living at its finest, whilst you create the home that you have always dreamed of.

### HARRINGTON MEWS

Horsham | West Sussex

**4 & 5 bedroom homes**

[crestnicholson.com/harringtonmews](http://crestnicholson.com/harringtonmews)  
01403 339 835



### CHORUS GARDENS

Beare Green | Surrey

**3 & 4 bedroom homes**

[crestnicholson.com/chorusgardens](http://crestnicholson.com/chorusgardens)  
01306 777 001



### KILNWOOD VALE

Faygate | West Sussex

**3 & 4 bedroom homes**

[crestnicholson.com/kilnwoodvale](http://crestnicholson.com/kilnwoodvale)  
0845 894 7873

We have a range of fantastic incentives to help get you moving, such as Part Exchange or Help to Buy.

Call or visit us online for further details and to arrange a visit today



One incentive per purchase. Terms & conditions apply.



# Canllaw rieni 2016

Gwybodaeth ynghylch proses ymgeisio UCAS i is-raddedigion



# Ambition is... making projections for the next blockbuster.

‘The training to be an ICAEW Chartered Accountant has provided me with both business skills and integrity, which is extremely valuable in the creative and media sector.’

Chris Hainsworth, ICAEW Chartered Accountant,  
Managing Director, AV Pictures

Achieve more as a chartered accountant  
across a range of diverse and exciting roles.

[icaew.com/parents](http://icaew.com/parents)



## Cynnwys



**AWGRYM:** Cofrestrwch i dderbyn ein e-gylchlythyr misol i rieni – mae'n rhad ac am ddim a bydd yn eich atgoffa am y pethau allweddol y bydd yn rhaid i'ch mab neu'ch merch eu gwneud gydol y broses ymgeisio.  
[www.ucas.com/parentform](http://www.ucas.com/parentform)

<b>Pam addysg uwch?</b>	3
<b>Beth yw UCAS?</b>	4
<b>Dyddiadau y dylech eu gwybod</b>	6
<b>Ionawr 2015</b>	
Meddwl am eu dyfodol	8
<b>Mawrth i Fai 2015</b>	
Ymchwil, ymchwil, ymchwil	9
<b>Mehefin i Fedi 2015</b>	
Llenwi eu cais UCAS	10
Pryd i ymgeisio	11
Dechrau gweithio ar eu datganiad personol	12
<b>Ionawr i Fawrth 2016</b>	
Unwaith y cawn ni eu cais	13
<b>Chwefror i Fai 2016</b>	
Ymateb i gynigion	15
Extra yn agor	16
<b>Mehefin i Awst 2016</b>	
Paratoi ar gyfer y canlyniadau	19
<b>Gorffennaf i Awst 2016</b>	
Canlyniadau arholiadau	20
Clearing ac Adjustment	21
<b>Cyllid myfyrwyr</b>	22
<b>Ystyried cerddoriaeth, dawns neu ddrama?</b>	24
<b>Ystyried dysgu?</b>	25
<b>Cael cymorth ar-lein</b>	26
<b>Pam fod myfyrwyr wrth eu bodd yn dysgu</b>	27
<b>Rhestr wirio gyfleus</b>	28



## Ynghylch Canllawiau i Rieni

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer unrhyw un sy'n rhoi help llaw i berson ifanc sy'n ymgeisio i astudio mewn prifysgol neu goleg yn hydref 2016. Mae'n trafod cyfnodau allweddol proses ymgeisio UCAS i is-raddedigion. Os hoffech chi holi ynghylch unrhyw beth, mae yna sawl ffordd y gallwch chi gysylltu: [www.ucas.com/contactus](http://www.ucas.com/contactus)

### Pam addysg uwch?

Mae penderfynu mynd i brifysgol yn effeithio ar y teulu cyfan, felly, mae'n bwysig fod pawb, gan gynnwys rhieni, gwarcheidwaid, rhieni maeth a neiniau a theidiau yn deall y manteision.

### Pan fydd eich mab neu eich merch yn y brifysgol bydd cyfle iddyn nhw:

- astudio pwnc sydd wrth eu bodd
- cael cymhwyster a fydd yn eu harwain at eu dewis yrfa
- dysgu i feddwl yn annibynnol ynghylch holl heriau bywyd a phob agwedd ar fywyd
- datblygu sgiliau pwysig a fydd yn agor drysau newydd
- dod yn fwy annibynnol a hunan hyderus
- gwneud ffrindiau gydol oes

### Ar ôl graddio, bydd eich mab neu'ch merch :

- yn cael cyfle i ddilyn gyrfa o'u dewis nhw
- â gobaith o gael swyddi gwell
- yn gallu ennill rhagor o gyflog

Yn y pen draw, bydd eich mab neu'ch merch yn ennill sgiliau a phrofiadau drwy fynd i brifysgol a fydd yn eu helpu yn eu gyrfa ac yn eu bywydau personol.

## Beth yw UCAS?

Sefydliad yw UCAS sy'n prosesu ceisiadau ar gyfer astudio cyrsiau'n llawn amser mewn prifysgolion a cholegau yn y DU. Ond, nid prosesu ceisiadau yn unig yw ein gwaith; rydym ni'n ceisio helpu myfyrwyr i ddewis yn ddoeth beth sydd orau iddyn nhw drwy eu harwain drwy'r broses gyfan o ymgeisio am addysg uwch. I gefnogi hyn, rydym ni'n darparu amrywiaeth eang o wybodaeth a gwasanaethau cefnogi gwerthfawr i ddysgwyr ifanc, ymgeiswyr a'u rhieni.

Drwy ddefnyddio ein gwefan [www.ucas.com](http://www.ucas.com), bydd eich mab neu'ch merch yn gallu canfod rhagor ynghylch sut i gychwyn, ymchwilio i'r dewis o gyrsiau, cyflwyno eu cais a chadw llygad ar eu dewis o gyrsiau. Mae yna wybodaeth yn benodol ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid ar [www.ucas.com/parents](http://www.ucas.com/parents), gan gynnwys manylion ynghylch y broses ymgeisio a llawer o ganllawiau defnyddiol ar fideos.

## Egluro termau UCAS

Mae yna gryn dipyn o dermau rydym ni a'r prifysgolion yn eu defnyddio a allai fod yn anghyfarwydd i chi. Ewch i [www.ucas.com/ucas-terms-explained](http://www.ucas.com/ucas-terms-explained) i gael rhagor o wybodaeth.

## Go beyond with Middlesex University

**With a practice-led approach, our teaching is designed to enhance your son or daughter's employability. We help them develop into a fully rounded individual, foster their academic achievement and prepare them for a successful career.**

### Industry links and work experience

Through our specialist courses and impressive industry networks, we offer numerous avenues for gaining professional experience, including placements, internships and volunteering opportunities.

### Employability Service

To complement our industry-aligned courses, our team of employability advisers are available from the moment your son or daughter arrives.

### Networking events and showcasing opportunities

Our students gain insight and contacts through regular events with blue-chip employers. We also offer the opportunity to enter national and international competitions and win awards that can kick-start a career.

For more information, please visit: [www.mdx.ac.uk/parents](http://www.mdx.ac.uk/parents)

# Dyddiadau y dylech eu gwybod

## 2015

<b>Haf</b>	Daw'r system ymgeisio i is-raddedigion ar gyfer cyrsiau'n cychwyn yn yr hydref 2016 ar gael Gelwir hyn yn Apply.
<b>Canol Medi</b>	Gellir cyflwyno ceisiadau i UCAS.
<b>15 Hydref (18:00 amser y DU)</b>	Dyddiad cau ystyriaethau cyfartal ar gyfer ceisiadau i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt a cheisiadau ar gyfer y rhan fwyaf o gyrsiau meddygaeth, deintyddiaeth, milfeddygaeth a gwyddor filfeddygol.

## 2016

<b>15 Ionawr (18:00 amser y DU)</b>	Dyddiad cau ystyriaethau cyfartal ar gyfer ceisiadau i bob cwrs, ac eithrio'r rhai a restrir ar declyn chwilio UCAS, <a href="http://search.ucas.com">search.ucas.com</a> gyda dyddiad cau 15 Hydref neu 24 Mawrth
<b>25 Chwefror</b>	Extra yn agor.
<b>24 Mawrth (18:00 amser y DU)</b>	Dyddiad cau ystyriaethau cyfartal ar gyfer ceisiadau am gyrsiau celf a dylunio ac eithrio'r rhai a restrir gyda dyddiad cau 15 Ionawr. <b>Bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiadau cau uchod yn cael eu hanfon at y prifysgolion, cyn belled â bod lleoedd ar gael, ond nid oes raid i'r prifysgolion eu hystyried.</b>
<b>30 Mehefin (18:00 amser y DU)</b>	Y dyddiad diwethaf i dderbyn ceisiadau gyda hyd at bump dewis. Bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl hyn yn cael eu cynnwys yn awtomatig yn Clearing a bydd yn rhaid i ymgeiswyr gysylltu â'r prifysgolion yn uniongyrchol i gael eu hystyried ar gyfer cwrs.
<b>4 Gorffennaf (18:00 amser y DU)</b>	Extra yn cau
<b>Dechrau Awst</b>	Cyhoeddir canlyniadau SQA ac mae'r gwasanaeth gwybodaeth Clearing Albanaidd yn dechrau.
<b>18 Awst</b>	Cyhoeddir canlyniadau TGAU Iefel A, Diploma Uwch a Pre-U a bydd y gwasanaeth gwybodaeth Clearing llawn yn dechrau.
<b>20 Medi (18:00 amser y DU)</b>	Dyddiad olaf i dderbyn ceisiadau trwy Apply.

Bydd yna hefyd ddyddiadau cau penodol ar gyfer ymateb i gynigion – mae manylion ar gael ar [www.ucas.com/whentoapply](http://www.ucas.com/whentoapply).



**AWGRYM:** Yn aml, mae ysgolion a cholegau'n gosod dyddiadau cau'n gynharach er mwyn cael digon o amser i gael golwg ar y ceisiadau ac ychwanegu geirda. Weithiau, bydd yn rhaid iddyn nhw anfon y cais yn ôl at eich mab neu eich merch i newid rhywbeth neu i ychwanegu gwybodaeth goll.



Anglia Ruskin  
University

## THE UK Entrepreneurial University of the Year

Our students are thriving with 9 out of 10 of our graduates starting their careers within six months.\*

We've a wide range of stimulating courses which are recognised by industry, and many are professionally accredited.

To find out why, join us at an Open Day.  
Visit [anglia.ac.uk/opendays](http://anglia.ac.uk/opendays) for dates.

\*Graduates working or in further study (Destinations of Leavers from Higher Education Institutions, 2012/13)

2014  
**THE AWARDS**  
AWARD WINNER  
ENTREPRENEURIAL UNIVERSITY  
OF THE YEAR

Times Higher Education

@angliaruskin  
 [facebook.com/angliaruskin](https://facebook.com/angliaruskin)  
Cambridge | Chelmsford | Peterborough

**01245 68 68 68**  
[anglia.ac.uk/opendays](http://anglia.ac.uk/opendays)  
[answers@anglia.ac.uk](mailto:answers@anglia.ac.uk)

## Meddwl am eu dyfodol

**Ceiswch eu cael i feddwl beth hoffon nhw ei wneud ar ôl gadael ysgol neu goleg.**

Efallai fod eich mab neu'ch merch wedi bod yn sôn am beth mae arno / arni eisiau ei wneud ar ôl tyfu i fyny ers pan oedd yn ifanc iawn. Erbyn hyn, mae'n bryd gwireddu eu cynlluniau drwy feddwl beth hoffon nhw ei wneud ar ôl gadael ysgol neu goleg. Mae yna gymaint o ddewisiadau, o fynd i brifysgol, cael swydd, cymryd blwyddyn allan neu gael Prentisiaeth. Ond cyn penderfynu, fe ddylen nhw feddwl rhagor am eu dyfodol drwy ofyn 'beth sy'n ennyn eu diddordeb cymaint nes y bydden nhw'n hoffi treulio tair blynedd o leiaf yn dysgu mwy amdano?'

Gallai'r ateb fod yn rhywbeth y maen nhw'n ei wneud yn yr ysgol, rhywbeth y maen nhw'n ei wneud yn eu hamser hamdden – neu'n rhywbeth nad ydyn nhw wedi'i wneud erioed o'r blaen ond sy'n swnio'n ddiddorol.

Dyw hi ddim yn bosibl gwybod beth fyddan nhw'n ei wneud mewn 10 neu 20 mlynedd.

Meddylwch sut oeddech chi pan oeddech chi'n gadael yr ysgol a lle'r ydych chi nawr – mae hynna'n gosod y cywair i'ch mab neu'ch merch. Ar hyn o bryd, y dasg yw eu cael i fagu digon o sgiliau i ddilyn y llwybr y byddan nhw'n ei fwynhau.

“ Y rheswm i mi ddewis fy ngradd oedd fy mod yn mwynhau'r pwnc yn yr ysgol, roeddwn i'n gallu gwneud y gwaith yn dda ac roeddwn i'n edrych ymlaen at ei astudio am dair blynedd. ”

I gael rhagor o wybodaeth ac awgrymiadau defnyddiol, ewch i [www.ucas.com/planning-your-future](http://www.ucas.com/planning-your-future).

## **AWGRYM:** Pethau y gall eich mab neu'ch merch eu gwneud i'w helpu i gynllunio ar gyfer eu dyfodol ...

- 1 Ysgrifennu rhestr o'r pethau y maen nhw â diddordeb ynddyn nhw.
- 2 Siarad â chymaint o bobl ag y gallan nhw i ganfod rhagor ynghylch eu profiadau yn y gwaith.
- 3 Trefnu ychydig o brofiad gwaith i ganfod rhagor ynghylch y pwnc yn y gweithle.
- 4 Ceisio cael ychydig o waith rhan amser ar benwythnosau neu yn ystod y gwyliau.
- 5 Rhoi cynnig ar wirfoddoli.

## Ymchwil, ymchwil, ymchwil!

Unwaith y bydd eich mab neu'ch merch wedi penderfynu beth sy'n denu eu diddordeb, bydd yn bryd iddyn nhw chwilio am gyrsiau fydd yn cyd-fynd â'u diddordebau.

Gyda mwy na 35,000 o gyrsiau i ddewis ohonyn nhw, buan y byddan nhw'n sylweddoli fod yna lwyth o ymchwil i'w wneud – ac weithiau fe fyddan nhw'n meddwl na ddôn nhw byth i ben â hi! Ond, cyn bo hir, bydd yna ddigon o wybodaeth i benderfynu pa gyrsiau i ymgeisio amdanynt. I'w helpu, bydd yn rhaid iddyn nhw fynd ar lein yn ogystal â chwilio o gwmpas.

### Mynd ar lein

Gall eich mab neu'ch merch ddefnyddio ein search tool [search.ucas.com](http://search.ucas.com) i chwilio am gyrsiau mewn prifysgolion, colegau a conservatories. Bydd canlyniadau'r chwilio yn dangos y gofynion mynediad, gwybodaeth ynghylch ffioedd ac arian, a manylion ynghylch sut a phryd i ymgeisio am gyrsiau unigol.

Chwilwch wefannau prifysgolion, colegau a conservatoires i gael rhagor o fanylion ynghylch eu hadnoddau a'u cyrsiau a chymerwch olwg ar eu teithiau rhithiol. [www.ucas.com/virtual-tours](http://www.ucas.com/virtual-tours).

### Ewch yma ac acw

- **Confensiwn UCAS** mae'r rhain yn gyfle ardderchog i'ch mab neu'ch merch gyfarfod â ni'n bersonol ac i siarad gyda staff o brifysgolion, colegau a darparwyr cyrsiau eraill a fydd yn gallu ateb cwestiynau ynghylch eu cyrsiau a'u hadnoddau. Bydd yna hefyd gyrrff proffesiynol a chwmnïau masnachol sy'n cynnig nodd cyrsiau gradd. Efallai y bydd ysgol eich mab neu'ch merch yn trefnu ymweliad – neu gallwch fynd yn annibynnol.

Pam mynd i gonfensiwn UCAS? Wel, meddylwch am y milltiroedd ar filltiroedd y byddai'n rhaid i chi deithio i ymweld â phob prifysgol a choleg y mae eich mab neu'ch merch yn eu hystyried, gallai gymryd wythnosau a hostio llawer iawn mewn petrol neu docynnau trên. Ond does dim rhaid i chi – gallwch ymweld â chonfensiwn UCAS lle mae llawer o brifysgolion yn arddangos a lle mae eu staff wrth law i ateb eich cwestiynau. Ac, yn well byth, maen nhw'n rhad ac am ddim! Mae'n rhaid bod yna un yn agos atoch chi, ewch i [www.ucas.com/events/convention-exhibition](http://www.ucas.com/events/convention-exhibition) i ganfod beth sydd ymlaen.

“ ...does yna ddim sy'n bwysicach na dewis cwrs sy'n eich ysbrydoli i weithio'n galetach ac sy'n helpu i'ch diffinio chi fel unigolyn.”

- **Dyddiau agored a chysiau blasu prifysgolion a cholegau** cewch fynd i mewn i brifysgol neu goleg a chyfarfod staff academaidd a myfyrwyr sydd eisoes yno. Mae ein search tool gwneud canfod diwrnod agored mewn prifysgol neu goleg yn hawdd iawn – gallwch chwilio yn ôl tref, rhanbarth, mis a blwyddyn ac mae'r dyddiadau'n cael eu rhestru yn nhrefn y calendr – felly does yna ddim esgus dros golli un. Gallwch ganfod rhagor ynghylch y dyddiau agored yma: [www.ucas.com/events/exploring-university/find-open-day](http://www.ucas.com/events/exploring-university/find-open-day). Mae cyrsiau blasu yn cael eu teilwra, fel arfer, yn ôl cyrsiau neu bynciau penodol ac yn aml yn cynnwys darlithoedd a gweithdai ymarferol. Maen nhw'n gallu bod am un diwrnod, dros y Sul neu am wythnos ac mae darpariaeth ar gyfer aros dros nos. Gallwch chwilio am gyrsiau blasu ar [www.ucas.com/taster-courses](http://www.ucas.com/taster-courses).

## Llenwi'r cais i UCAS

Mae UCAS Apply, i fynd i brifysgol neu goleg yn yr hydref 2016, ar gael ar [www.ucas.com](http://www.ucas.com) yn ystod yr haf 2015. Dyma'r foment y mae eich mab neu'n merch wedi bod yn disgwyl amdani – cael dechrau ar y cais. Ond cyn dechrau, cymerwch olwg ar y fideo fer ynghylch llenwi'r cais [www.ucas.com/fillingyourapplication](http://www.ucas.com/fillingyourapplication).



**AWGRYM:** Mae'n hynod bwysig bod eich mab neu'ch merch yn cofio'r manylion mewngofnodi a'r atebion i'w cwestiynau diogeled. Bydd yn rhaid iddyn nhw eu cael i fewngofnodi yn ystod y flwyddyn, ac yn enwedig ar ddiwrnod yn canlyniadau.

## Cofrestru gyntaf

Y cam cyntaf yw cofrestru. Mae'n rhad ac am ddim ac yn cymryd tua 15 munud i osod y manylion sylfaenol, gan gynnwys enw a chyfeiriad a sefydlu eu gwybodaeth ddiogeled.

**Ar ôl cofrestru, mae yna saith adran y bydd y rhaid iddyn nhw eu llenwi.**

- 1 Manylion personol.** Bydd hyn eisoes yn cynnwys yr holl wybodaeth o adeg cofrestru, er y bydd yna rai cwestiynau eraill ynghylch cefnogaeth i fyfyrwr a phreswyliaeth.
- 2 Gwybodaeth ychwanegol** ymgeiswyr o'r DU yn unig. Mae hyn yn cynnwys cwestiynau cydraddoldeb a manylion

ynghylch unrhyw baratodau y maen nhw wedi'u gwneud ar gyfer addysg uwch.

- 3 Cyllid myfyrwyr.** Gall eich mab neu'ch merch ddewis derbyn eost gennym ni yn dweud pa bryd y gellir ymgeisio am gyllid myfyrwyr. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch cyllid myfyrwyr ar dudalen 22.
- 4 Dewisiadau.** Mae yna le ar gyfer dewis pum cwrs (pedwar ar gyfer meddygaeth, deintyddiaeth neu filfeddygaeth).
- 5 Addysg.** Mae'n rhaid rhestru yma bob ysgol y maen nhw wedi bod ynddi ers yn 11 oed, y dyddiadau roedden nhw yno, canlyniadau pob un o'u harholiadau (llwyddo neu fethu) ac unrhyw arholiadau sydd i'w cymryd yn nes ymlaen.
- 6 Datganiad personol.** Cyfle yw hwn i argyhoeddi'r brifysgol neu'r coleg i gynnig lle iddyn nhw. Mae yna ragor o wybodaeth ynghylch ysgrifennu datganiad personol ar dudalen 12.
- 7 Cyflogaeth.** Os oes gan eich mab neu'ch merch swydd ran amser, neu swydd ddydd Sadwrn neu dros y gwyliau, dylid cynnwys y manylion sylfaenol. Gallan nhw sôn rhagor am hyn yn eu datganiad personol.

Gall eich mab neu'ch merch gyflwyno gwybodaeth unrhyw adeg, gan arbed wrth symud ymlaen. Fe allan nhw fynd yn ôl a'i olygu nes y bydd popeth yn berffaith. Mae'n broses hir, ond, cyn belled â'u bod yn cychwyn mewn da bryd, bydd yna ddigon o amser.

**Yn olaf, mae yna adran ar gyfer geirda, sy'n cael ei ychwanegu gan y canolwr.**

## Pryd i wneud cais

Mae yna wahanol derfynau amser, yn dibynnu ar y cyrsiau y maen nhw wedi ymgeisio ar eu cyfer – mae'r dyddiadau allweddol ar dudalen 6.

Unwaith y bydd pob adran wedi'i llenwi a'r geirda wedi'i hychwanegu, bydd cais eich mab neu'ch merch yn gyflawn. Mae'n bwysig eu bod yn cymryd digon o amser i wneud yn siŵr fod popeth yn ôl eu dymuniad, ond bydd yn rhaid iddyn nhw gofio pryd y mae dyddiad cau eu cwrs.

- Ni ellir cyflwyno ceisiadau cyn:
  - **Medi 2015** pan fyddwn ni'n barod i dderbyn ceisiadau
  - bod y ffi ymgeisio wedi'i thalu
- Os yw eich mab neu'ch merch yn ymgeisio o'u hysgol neu eu coleg, yr ysgol neu'r coleg fydd yn cyflwyno'r cais. Gwnewch yn siŵr bod eich mab neu'ch merch yn gwybod sut y bydd yr ysgol neu'r coleg yn talu'r ffi ymgeisio.



**AWGRYM:** Anogwch eich mab neu'ch merch i gael ychydig o amser wrth gefn rhag ofn i rywbeth fynd o'i le ar y funud olaf; y rhyngwyd ddim yn gweithio, methu â thalu â cherdyn credyd, heb gynnwys cyfeirnod – dyma ddim ond rhai o'r rhesymau pam fod ymgeiswyr yn colli'r dyddiad cau.



**AWGRYM:** Mae yna gwestiwn yn yr adran manylion personol sy'n cael ei alw'n fynediad enwebedig lle gall eich mab neu'ch merch roi manylion unrhyw un i gysylltu â ni, neu â'r brifysgol lle maen nhw wedi ymgeisio, ar eu rhan. Mae hyn yn ddelfrydol ar gyfer rhiant, gwarcheidwad neu ymgynghorydd. Ond cofiwch gael eu Hadnabyddiaeth Personol a gwnewch yn siŵr y gallwch chi ateb rhai cwestiynau sylfaenol pan fyddwch yn ffonio.

**Mae Tariff UCAS** yn cael ei ddefnyddio gan brifysgolion a cholegau i wneud cymariaethau bras rhwng cymwysterau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer mynd ar gyrsiau addysg uwch. Mae pwyntiau'n cael eu rhoi am amrywiaeth eang o gymwysterau, drwy adio'r rhain, o fewn rhai rheolau, ceir sgôr Tariff.

Rydym ni'n cyflwyno system pwyntiau Tariff newydd ar gyfer cyrsiau yn cychwyn o fis Medi 2017. Gwnewch yn siŵr fod eich mab neu'ch merch yn edrych ar yr un iawn wrth ymgeisio:

- am gyrsiau'n cychwyn **cyn** mis Medi 2017 [www.ucas.com/tariff-tables](http://www.ucas.com/tariff-tables).
- am gyrsiau'n cychwyn **o** fis Medi 2017 [www.ucas.com/ucas/undergraduate/getting-started/entry-requirements/tariff/new-tariff](http://www.ucas.com/ucas/undergraduate/getting-started/entry-requirements/tariff/new-tariff).

## Dechrau gweithio ar y datganiad personol

I lawer o ymgeiswyr, ysgrifennu eu datganiad personol yw'r rhan anoddaf. Mae gweld darn o bapur glân lle mae'n rhaid i chi ysgrifennu 4,000 o nodau amdanoch chi'ch hun yn ddigon i godi ofn. Gallai bod ag agwedd bositif, a bod â digon o amser i gael sglein arno, godi cais eich mab neu'ch merch ben ac ysgwyddau uwch ben y gystadleuaeth.

### Ble i ddechrau

Ceiswch eu cael i:

- feddwl beth sy'n gyffrous amdany'n nhw eu hunain a beth sy'n gwneud iddyn nhw sefyll allan – mewn ffordd dda, bositif.
- ysgrifennu geiriau ar bapur (llwythi ohonyn nhw!) sy'n dod i'r meddwl – unrhyw beth sy'n dangos pam eu bod yn cael eu cyffroi cymaint gan y cyrsiau y maen nhw'n ymgeisio amdany'n nhw. Cadwch bopeth yn bositif
- cofiwch pam eu bod wedi dweud 'Wow – dyma'r cwrs i mi!' Ai ar ôl darllen erthygl, clywed rhywun yn sôn am ei waith, neu hyd yn oed ar ôl bod yn rhywle oedd hynny?
- rhestrwch dystiolaeth i ddangos pam eu bod yn cael eu cyffroi cymaint gan y cyrsiau y maen nhw wedi'u dewis; soniwch am brofiad gwaith neu weithgareddau allan o'r ysgol.
- meddyliwch am y sgiliau y gallan nhw eu defnyddio ar y cwrs; arweinyddiaeth, cyfathrebu, chwarae cerddoriaeth, er enghraifft,
- gofyn i chi ac i'ch ffrindiau am ragor o syniadau.

## Dod â phopeth at ei gilydd

Casglu'r holl syniadau a'u troi'n ddatganiad sy'n mynd i godi i'r brig yw'r cam nesaf. Gwnewch yn siŵr fod ganddo ffurf.

**Y rhan gyntaf** – paragraff agoriadol bywiog sy'n dangos eu cynnwrf a'u dealltwriaeth o beth yn union yw'r cwrs.

**Y rhan ganol** – dyma lle dylai'r dystiolaeth fod i ddangos eu diddordeb yn y cwrs. Sgiliau perthnasol, profiad gwaith, adegau ysbrydoledig, mae lle i'r rhain i gyd.

**Y rhan olaf** – dyma lle y dylen nhw ysgrifennu amdany'n nhw eu hunain, beth yw eu diddordebau, pa mor dda y byddan nhw'n dygymod â bywyd yn y brifysgol.

**Y paragraff clo** – dylid gorffen gyda datganiad cryno sy'n dangos yn glir i'r darlennydd pam mai dyma'r cwrs i'ch mab neu'ch merch a pham eu bod nhw'n berffaith ar gyfer y cwrs.



### AWGRYM: Mae datganiad personol da ....

- yn berthnasol ac yn gryno; peidiwch â gwastraffu'r 4,000 nodyn – mae pob un yn cyfrif!
- mewn iaith glir, gyffredin
- heb ystrydebau – maen nhw wedi'u defnyddio o'r blaen!
- yn wreiddiol – peidiwch â chopio o ddatganiad personol arall – fe fyddwn ni'n gwybod, mae ein meddalwedd yn chwilio am hynny

I gael rhagor o help ac i weld ein fideo ar ddatganiad personol, ewch i [www.ucas.com/personalstatement](http://www.ucas.com/personalstatement).

Yna, y cyfan sydd raid ei wneud yw drafftio, ailddrafftio a drafftio wedyn ... nes ei fod yn iawn.

## Unwaith y cawn ni'r cais

- 1 Byddwn yn gwneud yn siŵr fod popeth yn iawn ac nad yw'r datganiad personol wedi'i gopio. Mae hyn yn cymryd hyd at 48 awr.
- 2 Pan fyddwn ni wedi gorffen cadarnhau, byddwn yn anfon ebost o groeso at eich mab neu'ch merch. Bydd yn egluro sut i ddefnyddio ein gwasanaeth Track i gadw llygad ar hynt y cais. Bydd hefyd yn cynnwys eu Hadnabyddiaeth Bersonol, bydd ei angen i fewngofnodi. Mae yna fideo'n dangos sut i ddefnyddio Track ar [www.ucas.com/trackyourapplication](http://www.ucas.com/trackyourapplication).
- 3 Yr un pryd, bydd y cais yn cael ei anfon at bob prifysgol a choleg sydd ar y rhestr ymgeisio. Yr adeg yma, ni fydd yr un o'r prifysgolion yn gwybod pa brifysgol arall sydd ar y rhestr, felly bydd y cais yn cael ei ystyried yn gyfan gwbl annibynnol.
- 4 Y prifysgolion a'r colegau fydd yn ystyried eu cais.
- 5 Pan fyddan nhw'n rhoi gwybod am gyfweiliad, clyweliad, prawf neu benderfyniad, byddwn yn anfon ebost at eich mab neu'ch merch – fel eu bod nhw'n gwybod pa bryd i gadw llygad ar eu cais yn Track.


### Y mathau o benderfyniadau y gall prifysgolion a cholegau eu cymryd

Mae derbyn cynnig amodol neu ddiamod, neu hyd yn oed y ddau, yn newyddion da, ond mae'n bwysig bod yn glir ynghylch y gwahaniaeth rhwng y ddau, a'r ymrwymiad y maen nhw'n ei wneud os ydyn nhw'n derbyn un.

- **Mae cynnig amodol** yn golygu y bydd yn rhaid i'ch mab neu'ch merch gyrraedd rhyw ofyniad penodol – canlyniadau arholiad fel arfer – cyn bod y cwrs yn cychwyn er mwyn cael lle. Os ydyn nhw'n derbyn cynnig amodol

fel eu dewis cadarn (gweler tudalen 15) maen nhw'n ymrwmo i dderbyn lle ar y cwrs.

- **Golyga cynnig diamod** fod, os ydyn nhw'n ei dderbyn, lle yn cael ei gadw'n bendant iddyn nhw cyn belled â'u bod yn cyfarfod ag amodau anacademaidd, megis iechyd neu wiriad troseddol neu ofynion ariannol. Os ydyn nhw'n derbyn cynnig diamod fel eu dewis cadarn (gweler tudalen 15) maen nhw'n ymrwmo i dderbyn lle ar y cwrs waeth beth fydd eu canlyniadau. Os ydyn nhw'n ystyried derbyn cynnig diamod, bydd yn rhaid iddyn nhw gofio:
    - allan nhw ddim cael dewis yswiriant (gweler tudalen 15) na defnyddio Clearing (gweler tudalen 21).
    - bydd lle iddyn nhw ar y cwrs waeth beth fydd canlyniadau eu harholiadau.
    - er, efallai, na fydd eu lle yn y brifysgol yn dibynnu ar eu graddau, efallai y bydd y graddau'n cael effaith wrth i'ch mab neu ferch chwilio am waith. Mae cyflogwyr graddedigion yn aml yn ystyried canlyniadau arholiadau ysgol a choleg wrth ystyried ceisiadau am swyddi, felly mae'n bwysig cofio hyn wrth baratoi ar gyfer arholiadau.
  - **Golyga cais aflwyddiannus** bod y brifysgol wedi penderfynu peidio â chynnig lle. Weithiau, fe roddir rheswm; os na roddir rheswm, gellir cysylltu â'r brifysgol i drafod y rheswm. Efallai y bydd hynny o help yn ddiweddarach os bydd yn rhaid iddyn nhw ddewis cyrsiau eraill.
  - **Golyga cais a dynnwyd yn ôl** fod y dewis wedi'i dynnu'n ôl gan un ai eich mab neu'ch merch neu gan y brifysgol. Os mai'r brifysgol a wnaeth hynny, bydd yn rhoi rheswm.
- Unwaith y byddan nhw wedi cael penderfyniad ynghylch pob un o'u dewisiadau, bydd yn bryd eu hateb – gweler tudalen 15.



### Rhoi atebion i gynigion

Ar ôl i'ch mab neu'ch merch dderbyn penderfyniad ynghylch pob un o'u dewisiadau, bydd yn rhaid iddyn nhw ateb pob cynnig y maen nhw wedi'i gael. Mae hyn yn gam pwysig iawn yn y broses a bydd yn rhaid iddyn nhw fod yn berffaith sicr eu bod yn derbyn y cynnig iawn, ac am y rheswm iawn. Fe fyddan nhw angen eich cefnogaeth chi i gymryd y penderfyniad iawn.

### Cyn iddyn nhw ymateb, dyma rai pethau y dylid eu gwneud

- Bod yn siŵr eu bod yn deall yr amodau sydd ynghlwm â'r cynigion. Os oes unrhyw beth yn aneglur, fe ddylen nhw gysylltu â'r brifysgol neu'r coleg i gael eglurhad.
- Ymweld â'r brifysgol neu'r coleg – os nad ydyn nhw eisoes wedi gwneud hynny – i weld sut yr hoffon nhw dreulio'r tair neu bedair blynedd nesaf yno. A fydd yn hwylus mynd yno, sut lety sydd yno ar gyfer myfyrwyr blwyddyn gyntaf ac a oes chwaraeon penodol ar gael?
- Os bydd eich mab neu'ch merch angen cefnogaeth arbennig, er enghraifft, ar gyfer anabledd, yna trafodwch gyda swyddog anabledd y brifysgol i gael popeth yn barod erbyn pan fyddan nhw'n cychwyn ar eu cwrs.
- Gwnewch yn siŵr faint yw'r ffioedd dysgu ar gyfer pob cwrs – mae'n bwysig gwybod beth ydyn nhw cyn bod cynnig yn cael ei dderbyn.
- Rhestrwch y cynigion mewn dwy ffordd, yn gyntaf, yn ôl eu ffefrynnau personol, ac yna yn ôl pa mor anodd fyddai llwyddo gyda phob cynnig. Ac yna, cymharwch y ddwy restr.

Bydd hynny'n ei gwneud yn haws i benderfynu pa gynnig i'w dderbyn a pha rai i'w gwrthod.

### Beth yw'r dewisiadau wrth ymateb?

Mae'n bosibl derbyn cynnig fel un pendant neu un yswiriant.

#### Dewis pendant

- O ran dewis amodol, bydd lle'n cael ei warantu i'ch mab neu'ch merch ar gwrs os bydd pob amod yn y cynnig yn cael ei bodloni.
- Os yw'r cynnig yn ddiamod, yna mae lle'n cael ei gadw.

Yn y ddau achos, maen nhw'n ymrwymo i'r cwrs hwnnw yn y brifysgol honno, allan nhw ddim chwilio am le arall.

**AWGRYM:** Mae'n rhaid i'ch mab neu'ch merch ymateb i'w cynigion ar lein drwy ddefnyddio Track – gwnewch yn siŵr eu bod yn gwybod pryd mae'r dyddiad cau a'u manylion mewngofnodi.

#### Dewis yswiriant

Mae hwn yn golygu'r un ymrwymiad â dewis pendant ond ni fydd ar gael oni bai na ellir bodloni amodau'r cynnig pendant – dyma'r dewis wrth gefn neu'r ail un ar gyfer cael lle. Felly, mae'n ddoeth sicrhau bod amodau llai llym ar y dewis yswiriant nag ar y dewis pendant.

Mae yna ragor o wybodaeth a fideo ar ein gwefan ynghylch ymateb i gynigion:

[www.ucas.com/replies](http://www.ucas.com/replies).

## Extra yn agor.

Er gwethaf yr ymchwil gofalus i ddewis y cyrsiau iawn, weithiau dyw pethau ddim yn troi allan yn ôl y disgwyl. Gall y gystadleuaeth fod yn ffyrnig am rai cyrsiau sy'n golygu na fydd gobeithion hyd yn oed y myfyrwyr gorau, bob amser, yn cael eu gwireddu. Ar y llaw arall, efallai y daw pentwr o gynigion am gyrsiau nad ydyn nhw, bellach, â diddordeb ynddyn nhw. Felly, maen nhw'n ystyried eu gwrthod – ond beth arall sydd ar gael?

## Extra yw hynny!

Cyfle yw Extra i'ch mab neu'ch merch chwilio am gwrs arall – hyd yn oed mewn pwnc arall mewn prifysgol wahanol – heb orfod disgwyl am Clearing (gweler tudalen 21). Ond mae yna rai rheolau y mae'n rhaid eu dilyn i fod yn gymwys ar gyfer Extra.

- Mae'n rhaid bod wedi defnyddio pob un o'r pump dewis.
- Nid yw eich mab neu'ch merch wedi cael unrhyw gynnig o gwbl neu mae pob cynnig wedi'i wrthod.

**Mae Extra yn agor ar 25 Chwefror 2016 ac yn cau ar 4 Gorffennaf 2016. Am ragor o fanylion, ewch i: [www.ucas.com/extra](http://www.ucas.com/extra).**



# DESIGN YOUR FUTURE TODAY

Raven  
sbou  
rne

Specialist Design, Media and Fashion undergraduate and postgraduate degree courses available, [www.ravensbourne.ac.uk/courses](http://www.ravensbourne.ac.uk/courses)



[www.ravensbourne.ac.uk](http://www.ravensbourne.ac.uk)

[f](#) /RavensbourneUK [t](#) @RavensbourneUK

# STUDY WITH A **TOP TEN** MODERN UNIVERSITY\*

[www.plymouth.ac.uk](http://www.plymouth.ac.uk)

**DISCOVER  
WITH  
PLYMOUTH  
UNIVERSITY**



@PlymUniApply



/PlymUniApply

\*2014 Times Higher Education 100 Under 50  
Matthew, BSc (Hons) Environmental Science

## Mehefin i Awst 2016

### Paratoi ar gyfer y canlyniadau

Fel rheol, bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn yr haf cyn i'r tymor prifysgol gychwyn. O gofio hynny, mae'n werth treulio ychydig o amser yn ystyried beth i'w wneud pe na byddai'r canlyniadau cystal â'r disgwyl. Bydd bod â chynllun **'beth os'** wedi'i baratoi ddigon o flaen llaw, yn trafod myrdd o bosibiliadau, yn arbed amser yn nes ymlaen. Bydd hefyd yn fwy annhebygol y bydd penderfyniad byrbwyll yn cael ei gymryd a difaru'n nes ymlaen.

### Felly, beth os na fyddan nhw'n cael y graddau roedden nhw'n eu disgwyl? Beth yw'r dewisiadau?

- Efallai y bydd y brifysgol yn dal yn eu derbyn – ond does yna ddim gwarant, mae'n dibynnu pa mor isel o dan y cynnig y mae'r canlyniadau a sut y bydd myfyrwyr eraill wedi gwneud yn eu harholiadau.
- Efallai y ceir cynnig am le ar gwrs arall neu mewn blwyddyn arall. Cyn derbyn, bydd yn rhaid iddyn nhw ganfod rhagor ynghylch hyn a hyd yn oed, efallai, ymweld. Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn hollol siŵr mai dyma sy'n iawn iddyn nhw.
- Efallai na chânt eu derbyn – felly, bydd yn rhaid ail feddwl. Dyma rai o'r dewisiadau.
  - Chwilio am gwrs arall drwy Clearing – gweler tudalen 21.
  - Ailsefyll yr arholiadau ac ailymgeisio'r flwyddyn nesaf – bydd rhai prifysgolion yn gofyn am raddau uwch gan fyfyrwyr sy'n ailsefyll.
  - Gwneud prentisiaeth neu hyfforddi – ewch i [wwwucas.com/ucas/undergraduate/getting-started/alternatives-higher-education](http://wwwucas.com/ucas/undergraduate/getting-started/alternatives-higher-education).

- Cymryd blwyddyn i ffwrdd – dysgu byw'n annibynnol, gwych ar gyfer CV.
- Dysgu ac ennill mewn swydd – mae gan rai cyflogwyr raglen i rai sy'n gadael yr ysgol, gallai eich mab neu'ch merch gael gwaith a fyddai'n eu hanfon i brifysgol ac ennill cyflog yr un pryd.



### **AWGRYM:** Gwnewch

yn siŵr fod manylion cyswllt eich mab neu'ch merch yn gyfoes – gan gynnwys eu cyfeiriad, ebost a rhif ffôn symudol.

### Beth os bydd yna newyddion arbennig o dda

pan fydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi a bod y graddau hyd yn oed yn well na'r disgwyl – ac yn llawer iawn gwell nag amodau eu cynnig – gweler tudalen 21 am fanylion Adjustment. Mae'n well cael cynllun nawr i baratoi eich mab neu'ch merch ar gyfer hyn.

## Canlyniadau arholiadau

### Cael y canlyniadau

Mae'r diwrnod mawr wedi cyrraedd. Nid ni sy'n rhoi'r canlyniadau i'ch mab neu'ch merch, y byrddau arholi sy'n gwneud hynny – un ai drwy'r ysgol (bydd yn rhaid mynd yno i'w casglu), drwy'r post neu ar lein.

Holwch a fydd yn rhaid i'ch mab neu'ch merch anfon y canlyniadau at eu dewis pendant ac yswiriant. Os felly, bydd yn rhaid iddyn nhw wneud hynny gynted ag y daw eu canlyniadau i law. Er enghraifft, dydyn ni ddim yn prosesu canlyniadau TGAU na rhai Scottish National 4. Mae'r canlyniadau rydyn ni'n eu derbyn i'w gweld ar: [www.ucas.com/sending-exam-results](http://www.ucas.com/sending-exam-results).



### AWGRYM:

Ceisiwch fod yno pan fyddan nhw'n cael eu canlyniadau, gallwch rannu yn eu cynnwrf neu gydymdeimlo os nad yw'r newyddion cystal.



### Canfod a oes ganddyn nhw le mewn prifysgol neu goleg

- Rydyn ni'n derbyn canlyniadau arholiadau ar gyfer llawer iawn o wahanol gymwysterau, yn eu cydweddu ag ymgeiswyr unigol ac yn eu cyflwyno i brifysgolion sy'n cynnig lleoedd pendant ac yswiriant.



### AWGRYM:

Tra byddwn ni'n prosesu canlyniadau'r Alban a Lefel A, bydd yn anodd mynd ar Track. Bydd manylion ynghylch pa bryd y bydd ar gael ar ein gwefan o ddiwedd Gorffennaf ymlaen. Bydd pawb yn gallu mynd yn ôl ar Track ar fore dyddiau canlyniadau'r Alban a Lefel A.

- Bydd y prifysgolion yn cadarnhau manylion y cynnig ac yn cadarnhau lleoedd pan fydd yr amodau wedi'u cyrraedd. Weithiau, fe fyddan nhw'n cadarnhau lleoedd – yn ôl eu disgrisiwn – hyd yn oed os nad yw'r amodau wedi'u cyfarfod.
- Os yw'r brifysgol wedi cadarnhau lle, bydd hyn yn cael ei ddangos yn glir ar Track.

## Clearing ac Adjustment

Clearing ac Adjustment yw'r dewisiadau i'w defnyddio pan nad yw canlyniadau'r arholiadau cystal â'r disgwyl; ond maen nhw ar gyfer eu defnyddio mewn sefyllfaoedd gwahanol.

**Mae Clearing** yn gyfle i fyfyrwyr chwilio am le os nad oes ganddyn nhw un. Hwn hefyd yw'r gyfle olaf i brifysgolion a cholegau lenwi unrhyw leoedd gwag sy'n dal ar ôl.

I chwilio am gwrs yn Clearing bydd yn rhaid i'ch mab neu'ch merch, yn gyntaf, fod yn gymwys. Mae hyn yn golygu un ai:

- nad oes ganddyn nhw gynigion
- fod eu prifysgolion dewisiadau cadarn neu yswiriant wedi eu gwrthod
- eu bod wedi ymgeisio ar ôl 30 Mehefin 2016 – gweler tudalen 6



### AWGRYM:

Os mai dim ond am un dewis mae eich mab neu'ch merch wedi talu, bydd yn rhaid talu £11 yn ychwanegol i ymgeisio am gwrs ar Clearing. Gellir gwneud hynny ar lein trwy Track.

Mae Clearing cychwyn yn swyddogol ddechrau Gorffennaf. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i fyfyrwyr fod wedi cael y cyfan o ganlyniadau eu harholiadau i allu ei ddefnyddio, felly bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn defnyddio Clearing fis Awst. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar: [www.ucas.com/clearing](http://www.ucas.com/clearing).



### Adjustment

Pan fydd y canlyniadau'n cyrraedd ac yn well na'r disgwyl, a bod canlyniadau eich mab neu'ch merch yn mynd y tu hwnt i amodau eu dewis cadarn, efallai y byddan nhw eisiau ystyried Adjustment i geisio mynd ar gwrs arall.

Mae Adjustment ar gael rhwng 18 a 31 Awst 2016. Ond, mae'r cyfnod yn un caeth; mae ganddyn nhw bum diwrnod o'r diwrnod pan fydd y brifysgol yn cadarnhau eu lle neu o'r 18 Awst, p'un bynnag yw'r hwyraf. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar: [www.ucas.com/adjustment](http://www.ucas.com/adjustment).



Ond rydw i, os nad yn unrhyw beth arall, yn benderfynol. Roeddwn i wedi rhoi fy mryd ar fynd i'r brifysgol. Os na allwn i actio, byddwn yn rhoi tro ar fy hoff beth arall, sef ysgrifennu. Felly, drwy system Clearing UCAS, cyflwynais gais i dair prifysgol ac roeddwn wrth fy modd o gael cynnig lle ym mhob un ohonyn nhw."

## Cyngor cadarn gan Cyllid Myfyrwyr Cymru

Ydych chi'n meddwl sut y bydd eich plentyn yn talu am ei le mewn prifysgol neu goleg? Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yma i helpu.

Gwasanaeth yw Cyllid Myfyrwyr Cymru sy'n cael ei ddarparu gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Rydyn ni'n darparu cefnogaeth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n dilyn addysg uwch yn y DU.

### Pa help sydd ar gael?

Ni fydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr dalu eu ffioedd dysgu ymlaen llaw. Gall myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn y DU ymgeisio am Grant Ffioedd Dysgu gan Cyllid Myfyrwyr Cymru i'w helpu i dalu am eu cwrs. Does dim rhaid talu hwn yn ôl. Mae benthyciadau a grantiau eraill ar gael hefyd i'w helpu i dalu eu ffioedd dysgu a chostau byw fel llety a bwyd. Does dim rhaid talu'r benthyciadau'n ôl nes bod y myfyriwr wedi gadael y brifysgol neu'r coleg ac yn ennill incwm o dros £21,000. Does dim rhaid talu grantiau'n ôl o gwbl.

 **AWGRYM:** Efallai y bydd eich mab neu'ch merch yn dymuno cael swydd rhan amser i gael rhagor o incwm.

Mae yna hefyd ragor o help ar gael i fyfyrwyr sydd â phlant, ag oedolion sy'n dibynnu arnyn nhw neu sydd ag anableddau, gan gynnwys cyflwr iechyd meddwl neu anabledd dysgu penodol fel dyslecsia neu ddysprasia.

Mae yna lawer iawn o adnoddau defnyddiol a gwybodaeth ynghylch y mathau o gyllid myfyrwyr sydd ar gael ar ein gwefan. Gallwch ganfod hefyd beth ddylech chi a'ch plentyn ei wneud i ymgeisio, a sut y bydd yn ad-dalu ar ddiwedd y cwrs, ar [www.studentfinancewales.co.uk](http://www.studentfinancewales.co.uk)

 **AWGRYM:** Gwnewch yn siŵr bod eich mab neu'ch merch yn ymgeisio am gyllid myfyrwyr cyn cael canlyniadau eu harholiadau a chadarnhad o le – yna bydd yr arian ar gael iddyn nhw ar ddechrau'r tymor.

Cofiwch ddweud eich bod yn ein hoffi ar Facebook, dilynwch ni ar Twitter a gwyliwch ein fideos ar YouTube. Byddwch yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd yn adeg helpu'ch plentyn i baratou i fynd i brifysgol neu goleg.



[www.facebook.com/SFWales](http://www.facebook.com/SFWales)



[www.twitter.com/SFWales](http://www.twitter.com/SFWales)



[www.youtube.com/SFWFILM](http://www.youtube.com/SFWFILM)

## 8 cam syml i ymgeisio'n llwyddiannus am gyllid myfyrwyr

 **Tynnwch y dudalen hon allan a'i chadw i'w defnyddio'n ddiweddarach.**

- 1 Dylai eich plentyn ymgeisio gynted â bo modd. Does dim rhaid disgwyl nes bod lle wedi'i dderbyn mewn prifysgol neu goleg. Mae'n bwysig ymgeisio'n gynnar a chyn y dyddiad cau – os na wneir hynny does yna ddim sicrwydd y bydd yr arian ar gael erbyn yr amser y bydd y cwrs yn cychwyn!
- 2 Y ffordd gyflymaf a hawsaf o ymgeisio yw ar lein ar [www.studentfinancewales.co.uk](http://www.studentfinancewales.co.uk) Mae yna gyngor i gael ar ein gwefan, Facebook, Twitter ynghylch pa bryd y gallwch ymgeisio ar lein.
- 3 Os mai dim ond am gyllid myfyrwyr nad yw'n dibynnu ar incwm y cartref y mae eich plentyn yn ymgeisio, megis Benthyciad Ffioedd Dysgu, Grant Ffioedd a'r Benthyciad Cynnal sylfaenol, gall y plentyn lenwi'r cais a does dim rhaid i chi wneud urhyw beth.
- 4 Os yw eich plentyn yn ymgeisio am gyllid myfyrwyr sy'n dibynnu ar incwm eich cartref, megis Grant Dysgu a Benthyciad Cynnal Llywodraeth Cymru, bydd yn rhaid i chi gofrestru cyfrif ar lein hefyd. Byddwn yn gofyn am eich rhif Yswiriant Gwladol a manylion eich incwm. Os ydych yn byw gyda gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner, byddwn yn gofyn am eu manylion nhw hefyd.
- 5 Byddwn yn cadarnhau manylion eich incwm gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi drwy eich rhif Yswiriant Gwladol Golyga hyn na fydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o rieni anfon unrhyw dystiolaeth ond weithiau bydd gofyn i chi anfon dystiolaeth neu fwy o wybodaeth i gefnogi'r hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni. Peidiwch â phoeni os bydd hyn yn digwydd i chi.
- 6 Unwaith y byddwn wedi cael yr holl wybodaeth y byddwn ei hangen, bydd eich plentyn yn derbyn llythyr Hawl i Gyllid Myfyrwyr yn dangos faint o arian fydd yn ei gael.
- 7 Byddwn yn talu'r Benthyciad Cynnal a/neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru cyntaf i gyfrif banc eich plentyn a'r Benthyciad Ffioedd Dysgu a'r Grant Ffioedd yn uniongyrchol i'r brifysgol neu'r coleg. Fel arfer, bydd eich plentyn yn derbyn y cyllid myfyrwyr bob tymor.
- 8 Bydd yn rhaid i'ch plentyn ymgeisio am gyllid myfyrwyr bob blwyddyn o'r cwrs ond ni fydd yn rhaid dechrau ad-dalu nes gadael y cwrs a bod ag incwm o fwy na £21,000.

## Yn ystyried cerddoriaeth, dawns neu ddrama?

Os yw eich mab neu'ch merch yn ystyried gyfra mewn cerddoriaeth, dawns neu ddrama, un ai fel perfformiwr proffesiynol neu ym maes celfyddydau perfformio, mae yna ddau ddewis: UCAS Conservatoires ac UCAS Israddedigion. Mae prifysgolion a conservatoires yn cynnig graddau baglor, felly nid ar sail bod eisiau gradd y mae penderfynu.



**AWGRYM:** Os nad yw eich mab neu'ch merch yn siŵr pa gwrs fyddai fwyaf addas, fe allan nhw ymgeisio drwy UCAS Apply ac UCAS Apply Conservatoire. Pe bydden nhw'n cael lle yn y ddau, byddwn ni'n gofyn iddyn nhw benderfynu pa un i'w ddewis.

### Astudio mewn conservatoire

- Coleg yw conservatoire sy'n arbenigo mewn astudio cerddoriaeth, dawns a drama ond sydd hefyd yn cynnwys astudiaethau academaidd.
- Os mai disgyblaeth ymarferol, megis offeryn cerdd neu berfformio lleisiol, dawns neu ddrama sy'n denu eich mab neu'ch merch, efallai y byddai'n well ganddyn nhw conservatoire.
- I astudio mewn conservatoire o hydref 2016, bydd yn rhaid i'ch mab neu'ch merch ymgeisio drwy gynllun UCAS Conservatoire ar [www.ucas.com/ucas/conservatoires/apply-and-track](http://www.ucas.com/ucas/conservatoires/apply-and-track), a ddaw ar gael yn ystod haf 2015.



**AWGRYM:** Cofiwch ofyn a fydd yn rhaid talu ffioedd clyweliad.



Rwy'n gwirioni'n lân wrth feddwl am fy nyfodol mewn cerddoriaeth"

- Y dyddiadau cau ystyriaeth gyfartal ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw:
  - 1 Hydref 2015 (18.00 amser y DU) ar gyfer cyrsiau cerddoriaeth
  - 15 Ionawr 2016 (18.00 amser y DU) ar gyfer y rhan fwyaf o gyrsiau dawns, drama a chynhyrchu ar gyfer y sgrîn. Mae yna rai eithriadau, felly ewch i gael golwg ar wefannau'r conservatoires.
- I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ynghylch ymgeisio ac astudio mewn conservatoire, ewch i [www.ucas.com/conservatoires](http://www.ucas.com/conservatoires).



Beth rwy'n ei fwynhau ynghylch fy ngwaith yw adrodd storiâu. Ar gamera neu ar lwyfan, drwy gân neu byped, yr hyn rwyf i â diddordeb ynddo yw ein bod ni, drwy rannu ein profiadau bywyd a'n hemosiynau, yn dod i ddeall ein bywydau ni'n hunain yn well.

### Astudio mewn prifysgol neu goleg

- Os yw diddordeb eich mab neu'ch merch yn fwy academaidd, megis hanes cerddoriaeth, efallai y byddai'r brifysgol yn well iddyn nhw.
- Mae llawer o brifysgolion yn cynnig cyrsiau sy'n seiliedig ar berfformio.
- I astudio mewn prifysgol neu goleg, bydd yn rhaid i'ch mab neu'ch merch ymgeisio drwy gynllun UCAS Israddedigion.

## Ystyried dysgu?

Os yw eich mab neu'ch merch yn ystyried gyrfa fel athro, bydd yn rhaid dilyn Hyfforddiant neu Addysg Gychwynnol Athrawon mewn prifysgol, ysgol neu goleg yn y DU. Mae yna ddau lwybr y gallan nhw eu dilyn, israddedig ac ôl-raddedig.

### Israddedig

- Gall eich mab neu'ch merch gael hyfforddiant fel athro wrth astudio am radd.
- Mae cyrsiau'n amrywio'n ôl ble maen nhw'n astudio ond fe fyddan nhw'n derbyn Qualified Teacher Status (QTS) ar ddiwedd eu cwrs yn ogystal â gradd.
- I ymgeisio am radd israddedig mewn addysgu, bydd yn rhaid i'ch mab neu'ch merch ymgeisio drwy gynllun UCAS Israddedig.



Yr un peth yr hoffwn i'r disgyblion rwy'n eu dysgu ei gofio yw mai dim ond am ennyd rydyn ni yma ar y Ddaear ond bod yr wybodaeth rydyn ni'n ei darganfod, ei datblygu a'i dosbarthu yn parhau'n dragywydd. Cofiwch hynny a byddwch yn gweld eich hunan yn tyfu'n rhywbeth na allech chi fod wedi ddychmygu o'r blaen. Does dim terfyn ar ddisysgu, does dim modd caethiwo ysbrydoliaeth: mae i'w gofleidio."

### Ôl-raddedig

- Bydd eich mab neu'ch merch eisoes wedi astudio am radd israddedig, er nad oes yn rhaid iddi fod yn y pwnc penodol y maen nhw'n dymuno ei addysgu.

- Cyn belled â'u bod yn cael gradd o'r dosbarth angenrheidiol, fe fyddan nhw'n gymwys i ymgeisio am gwrs addysgu ôl-raddedig yn arwain at Qualified Teacher Status (QTS). Mae nifer o gyrsiau hefyd yn arwain at Dystysgrif Addysg i Raddedigion, Ôl-raddedig neu Broffesiynol.
- Os yw eich mab neu'ch merch yn dymuno ymgeisio am gwrs ôl-raddedig mewn addysgu yng Nghymru neu Loegr, fe ddylen nhw ymgeisio drwy'r cynllun UCAS Hyfforddi Athrawon. I ymgeisio am raglenni yn yr Alban, bydd yn rhaid ymgeisio drwy'r cynllun UCAS Israddedig.
- [www.ucas.com/ucas/teacher-training/getting-started](http://www.ucas.com/ucas/teacher-training/getting-started) mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch yr hyn y bydd yn rhaid iddyn nhw ei wneud ac fe allan nhw hefyd ddewis derbyn ein pecyn gwybodaeth rhad ac am ddim a fydd yn eu helpu i ganfod eu ffordd drwy'r broses ymgeisio am hyfforddiant athrawon ôl-raddedig.



## Cael cymorth ar-lein

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwn ni eich helpu chi a'ch mab neu'ch merch ar lein – ewch i [www.ucas.com/contactus](http://www.ucas.com/contactus) fe gewch eglurhad drwy fideos, dolenni i Twitter a Facebook a blogiau gan rieni eraill sy'n cael yr un profiadau â chi.



[www.twitter.com/ucas\\_online](http://www.twitter.com/ucas_online)



[www.facebook.com/ucasonline](http://www.facebook.com/ucasonline)



[www.youtube.com/ucasonline](http://www.youtube.com/ucasonline)



[plus.google.com/  
+Ucasonlineofficial/posts](https://plus.google.com/+Ucasonlineofficial/posts)

Gallwch hefyd ein ffonio ni ar **0371 468 0 468**, Dydd Llun – Dydd Gwener 8.30 am – 18.00 (amser y DU)



**AWGRYM:** Os yw eich mab neu'ch merch yn byw y tu allan i'r DU ar hyn o bryd, efallai y byddai darllen ein 'International undergraduate guide for parents' yn ddefnyddiol. Gallwch ei weld ar [www.ucas.com/internationalguides](http://www.ucas.com/internationalguides)

### Gwybodaeth arbenigol

Efallai y bydd y gwefannau hyn hefyd yn ddefnyddiol:

#### Cyngor gyrfa

National Careers Service for England  
<https://nationalcareersservice.direct.gov.uk>

Careers Service Northern Ireland  
[www.nidirect.gov.uk/careers](http://www.nidirect.gov.uk/careers)

Skills Development Scotland  
[www.myworldofwork.co.uk](http://www.myworldofwork.co.uk)

Gyrfa Cymru  
[www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)

Conservatoires UK  
[www.conservatoiresuk.ac.uk](http://www.conservatoiresuk.ac.uk)

Get into teaching  
[www.education.gov.uk/get-into-teaching](http://www.education.gov.uk/get-into-teaching)

#### Myfyrwyr ag anableddau

Disability Rights UK  
[www.disabilityrightsuk.org](http://www.disabilityrightsuk.org)

Lwfansau Myfyrwyr Anabl  
[www.gov.uk/disabled-students-allowances-dsas](http://www.gov.uk/disabled-students-allowances-dsas)

#### Blwyddyn i ffwrdd

gap-year.com  
[www.gap-year.com](http://www.gap-year.com)

The Year Out Group  
[www.yearoutgroup.org](http://www.yearoutgroup.org)

#### Cyngor cyffredinol ar addysg uwch

Unistats  
<http://unistats.direct.gov.uk>

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr  
[www.nus.org.uk](http://www.nus.org.uk)

#### Ariannu

Mae manylion y gwahanol sefydliadau ariannu ar dudalen 22.

## Pam fod myfyrwyr wrth eu bodd yn dysgu

Y llynedd, cafodd myfyrwyr israddedig mewn prifysgolion a cholegau ledled y DU eu gwahodd i ddweud wrthym ni pam eu bod wrth eu bodd yn dysgu – mewn un ai draethawd 500 gair neu fideo 30 eiliad. Roeddem ni'n cynnal y gystadleuaeth Love Learning gyda phapur newydd The Times a chymerodd mwy na 2,500 o fyfyrwyr ran.


### Dyma beth oedd gan rai ohonyn nhw i'w ddweud:

“Prin fy mod i'r un person â'r un oedd yn crynu wrth lenwi'r cais UCAS flynyddoedd yn ôl. Nid yn unig rydw i wedi meistrolï agweddau rhyfeddol ar wyddoniaeth ond, hefyd, rywle ar y daith, rydw i wedi tyfu i fyny. Dyna sy'n digwydd pan fyddwch chi'n cyfarfod â phobl o ddiwylliannau na wyddech chi am eu bodolaeth, yn siarad â phobl sy'n meddwl mewn ffyrdd gwahanol ac yn cysylltu â byd cyfan o bobl sy'n byw bywydau cyfoethog a chyfareddol.”

“Drwy astudio mewn prifysgol, waeth pa radd fyddwch chi'n ei ddewis, byddwch yn dysgu llawer mwy na dim ond gwybodaeth am eich pwnc. Byddwch yn dysgu i edrych o dan yr wyneb ar beth bynnag fydd yn eich wynebu ac i dreiddio i'r hanfodion.”

“Mae'r brifysgol wedi fy helpu i dyfu ac aeddfedu. Ac, yn rhyfeddol, yr un pryd, rwy wedi dysgu mwy a mwy am bwnc sydd wedi cydio yn fy nychymyg erioed.”

Gallwch ddarllen y traethawd a'r pedair fideo buddugol ar [www.ucas.com/lovelearning](http://www.ucas.com/lovelearning)



- ✓ **Cofrestrwch i gael ein taflen newyddion fisol i rieni** – Mae'n rhad ac am ddim a bydd yn eich atgoffa am y pethau allweddol y bydd yn rhaid i'ch mab neu'ch merch eu gwneud gydol y broses ymgeisio. [www.ucas.com/parentform](http://www.ucas.com/parentform).
- ✓ **Dewch yn gyfarwydd â'n gwefan** – [www.ucas.com](http://www.ucas.com) lle mae'r holl wybodaeth y bydd eich mab neu'ch merch ei angen ar bob cam.
- ✓ **Trefnwch i fynd â'ch mab neu'ch merch i ddyddiadau agored mewn prifysgolion neu golegau** [www.ucas.com/open-days](http://www.ucas.com/open-days).
- ✓ **Cofiwch erbyn pryd y bydd yn rhaid i'ch mab neu'ch merch gyflwyno eu cais** – [www.ucas.com/whentoapply](http://www.ucas.com/whentoapply).
- ✓ **Cofiwch erbyn pryd y bydd yn rhaid iddyn nhw ateb** – bydd y rhain yn wahanol yn dibynnu ar ba gyrsiau y maen nhw wedi ymgeisio amdanynt a pha bryd y cawson nhw benderfyniad ar bob dewis.
- ✓ **Dewch i ddeall pa gefnogaeth ariannol myfyrwyr sydd ar gael i'ch mab neu'ch merch** (gweler tudalen 22)
- ✓ **Gwnewch yn siŵr y bydd eich mab neu'ch merch adref adeg y canlyniadau.**
- ✓ **Deall sut y mae Extra, Clearing ac Adjustment gweithio** (gweler tudalennau 16 – 21).

1441001

University of  
South Wales  
Prifysgol  
De Cymru

Do you know your Tariff  
Points from your UCAS Codes?  
Your Firm choice from your Insurance?

## ParentSpace can help you.



ParentSpace is designed to help you survive the university application process.

We have tips on how to get the most out of Open Days and how to balance the cost of university.

We even have interviews with parents and a jargon buster to help you keep up with all the terminology.

To sign up for your **FREE** copy, visit [www.southwales.ac.uk/parents](http://www.southwales.ac.uk/parents) or call our Parents' Hotline on **03455 760 996**.

The University of South Wales is a registered charity. Registration No. 1140312



Show Home interior at Harrington Mews

## DISCOVER YOUR DREAM HOME

Crest Nicholson's unrivalled attention to detail and sense of style makes these homes an ideal choice for the discerning buyer. The beautifully designed kitchens and sleek, stylish bathrooms create luxury living at its finest, whilst you create the home that you have always dreamed of.

### HARRINGTON MEWS

Horsham | West Sussex

